O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 70

Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2026

Gwnaed	*4 Mawrth 2026*
Yn dod i rym	*16 Mawrth 2026*

W E L S H S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S

2026 No. 70

The Infrastructure Consent (Fees) (Wales) (Amendment) Regulations 2026

Made	*4 March 2026*
Coming into force	*16 March 2026*

£8.90

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 70

CYNLLUNIO SEILWAITH, CYMRU

Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 ("Deddf 2024") yn sefydlu proses ymgeisio a chydsynio unedig i alluogi gwneud ac ystyried ceisiadau am gydsyniad seilwaith. Mae'r broses yn gymwys i'r prosiectau seilwaith arwyddocaol a bennir yn Rhan 1 o Ddeddf 2024. Yn fras, prosiectau ynni, trafnidiaeth, gwastraff a dŵr yw'r rhain.

Mae Rhan 6 o Ddeddf 2024 yn gwneud darpariaeth ynghylch gorchmynion cydsyniad seilwaith (gorchmynion sy'n rhoi cydsyniad seilwaith) gan gynnwys rhoi'r pŵer, drwy orchymyn, i Weinidogion Cymru i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith (adran 90 o Ddeddf 2024).

Mae Deddf 2024 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ar gyfer codi ffioedd neu mewn cysylltiad â chodi ffioedd gan awdurdodau cyhoeddus penodedig am gyflawni swyddogaeth cydsyniad seilwaith a darparu gwasanaeth cydsyniad seilwaith (fel y'u diffinnir yn adran 124 o Ddeddf 2024).

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Ffioedd) (Cymru) 2025 i wneud darpariaeth ar gyfer codi ffioedd mewn cysylltiad â cheisiadau a cheisiadau arfaethedig i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.

2026 Rhif 70

CYNLLUNIO SEILWAITH, CYMRU

Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2026

Gwnaed	*4 Mawrth 2026*
Yn dod i rym	*16 Mawrth 2026*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 124(1), (4), (5) a (6), 140(1) a (2)(**1**) a 141(2)(a) o Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024(**2**).

Yn unol â gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd a gymhwysir gan adran 141(3) o'r Ddeddf honno gosodwyd drafft o'r offeryn statudol Cymreig hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2026.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 16 Mawrth 2026.

Diwygio Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Ffioedd) (Cymru) 2025

2.—(1) Mae Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Ffioedd) (Cymru) 2025(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli)—

(a) yn y diffiniad o "ceisydd", ar ôl "("*applicant*")" mewnosoder ", ac eithrio yn Rhan 6,";

(b) yn y diffiniad o "cais", ar ôl "("*application*")" mewnosoder ", ac eithrio yn Rhan 6,".

(3) Ar ôl Rhan 5 (ffioedd sy'n daladwy am wasanaethau eraill) mewnosoder—

(**1**) Am ystyr "Gweinidog priodol" gweler adran 140(4) o Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024 (dsc 3); gweler adran 140(3) fel arall.
(**2**) 2024 dsc 3.
(**3**) O.S. 2025/883 (Cy. 153).

“RHAN 6

Ffioedd am geisiadau arfaethedig a cheisiadau i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith

Dehongli’r Rhan

15. Yn y Rhan hon—

ystyr “cais i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith” (“*application to change or revoke an infrastructure consent order*”) yw cais o dan adran 90 o Ddeddf 2024;

ystyr “ceisydd” (“*applicant*”) yw person sy’n cynnig gwneud cais, neu sydd wedi gwneud cais, i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith;

ystyr “gorchymyn cydsyniad seilwaith” (“*infrastructure consent order*”) yw gorchymyn sydd wedi ei wneud o dan Ddeddf 2024 sy’n rhoi cydsyniad seilwaith;

ystyr “Rheoliadau 2026” (“*the 2026 Regulations*”) yw Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Cywiro Gwallau a Cheisiadau i Newid neu Ddirymu Gorchmynion Cydsyniad Seilwaith) (Gweithdrefn) (Cymru) 2026.

Ffi am roi hysbysiad o gais arfaethedig i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith

16.—(1) Rhaid i geisydd sy’n rhoi hysbysiad o gais arfaethedig o dan reoliad 6 o Reoliadau 2026 dalu ffi i Weinidogion Cymru gyda’r hysbysiad.

(2) Y ffi sy’n daladwy o dan baragraff (1) yw’r swm a gyhoeddir ar wefan a gynhelir gan Weinidogion Cymru neu ar eu rhan.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) cyhoeddi’r ffi sy’n daladwy ar y wefan heb fod yn llai nag un mis cyn i’r ffi ddod i rym, a

(b) sicrhau nad yw’r ffi sy’n daladwy yn fwy na’r costau yr eir iddynt yn rhesymol ganddynt wrth ymdrin â’r hysbysiad, gan gymryd un flwyddyn ariannol gydag un arall.

Ffioedd am geisiadau i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith

17.—(1) Rhaid i geisydd sy’n gwneud unrhyw un neu ragor o’r ceisiadau a ganlyn dalu ffi i Weinidogion Cymru pan wneir y cais—

(a) cais am newid ansylweddol;

(b) cais am newid sylweddol;

(c) cais am ddirymiad.

(2) Rhaid i geisydd sy’n cael hysbysiad derbyn sy’n cynnwys darpariaeth o dan reoliad 7(5) o Reoliadau 2026 fod hysbysiad o gais arfaethedig y ceisydd i’w drin fel cais dalu ffi i Weinidogion Cymru ar ôl cael yr hysbysiad derbyn hwnnw.

(3) Y ffioedd sy’n daladwy o dan y rheoliad hwn yw’r symiau a gyhoeddir ar wefan a gynhelir gan Weinidogion Cymru neu ar eu rhan.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau y cyhoeddir yr wybodaeth a ganlyn ar y wefan—

(a) manylion y swyddogaethau y codir y ffioedd ar eu cyfer,

(b) y ffioedd sy'n daladwy,

(c) y dull a ddefnyddir i gyfrifo'r ffioedd, a

(d) y deddfiad y darperir y swyddogaethau perthnasol odano.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) cyhoeddi'r ffi ar gyfer pob math o gais a bennir ym mharagraff (1) a'r ffi sy'n daladwy o dan baragraff (2) ar y wefan heb fod yn llai nag un mis cyn i'r ffi ddod i rym;

(b) sicrhau nad yw'r ffi sy'n daladwy yn fwy na'r costau yr eir iddynt yn rhesymol ganddynt wrth gyflawni'r swyddogaethau perthnasol, gan gymryd un flwyddyn ariannol gydag un arall.

(6) Yn y rheoliad hwn—

mae i "cais am ddirymiad" ("*application for revocation*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 9(1)(b)(ii) o Reoliadau 2026;

mae i "cais am newid ansylweddol" ("*application for a non-material change*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 15(1)(b) o Reoliadau 2026;

mae i "cais am newid sylweddol" ("*application for a material change*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 9(1)(b)(i) o Reoliadau 2026;

ystyr "hysbysiad derbyn" ("*notice of acceptance*") yw hysbysiad a roddir o dan reoliad 7(3) o Reoliadau 2026;

ystyr "hysbysiad o gais arfaethedig" ("*notice of proposed application*") yw hysbysiad a roddir yn unol â rheoliad 6 o Reoliadau 2026.

Ffi am archwilio cais i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith

18.—(1) Pan fo person neu banel o bersonau yn cael ei benodi o dan adran 40(2) o Ddeddf 2024 i archwilio cais i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith ("awdurdod archwilio"), rhaid i geisydd dalu ffi i Weinidogion Cymru.

(2) Rhaid i'r ffi o dan baragraff (1) gael ei thalu i Weinidogion Cymru ar ôl cael hysbysiad o dan reoliad 28(1)(a) o Reoliadau 2026 fod awdurdod archwilio wedi ei benodi am y tro cyntaf.

(3) Y ffi sy'n daladwy o dan y rheoliad hwn yw'r swm a gyhoeddir ar wefan a gynhelir gan Weinidogion Cymru neu ar eu rhan.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau y cyhoeddir yr wybodaeth a ganlyn ar y wefan—

(a) manylion y swyddogaethau y codir y ffi ar eu cyfer,

(b) y ffi sy'n daladwy,

(c) y dull a ddefnyddir i gyfrifo'r ffi, a

(d) y deddfiad y darperir y swyddogaethau perthnasol odano.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) cyhoeddi'r ffi ar y wefan heb fod yn llai nag un mis cyn i'r ffi ddod i rym;

(b) sicrhau nad yw'r ffi sy'n daladwy yn fwy na'r costau yr eir iddynt yn rhesymol ganddynt wrth gyflawni'r swyddogaethau perthnasol, gan gymryd un flwyddyn ariannol gydag un arall.

(6) Yn y rheoliad hwn mae i "awdurdod archwilio" yr ystyr a roddir ym mharagraff (1).

Ad-dalu ffioedd nas gwariwyd mewn cysylltiad â cheisiadau i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith

19. Rhaid i Weinidogion Cymru ad-dalu i'r ceisydd unrhyw ran o'r ffi a dalwyd o dan reoliad 17 neu 18 na chafodd ei gwario ar ôl i'r cais i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith gael ei benderfynu.

Ffioedd sy'n daladwy i ymgyngoreion statudol perthnasol ac awdurdodau cynllunio perthnasol

20. Mae rheoliad 13 yn gymwys i geisiadau i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith fel y mae'n gymwys i geisiadau am gydsyniad seilwaith o dan adran 32 o Ddeddf 2024 ond fel pe bai—

(a) i "ceisydd" yr ystyr a roddir yn rheoliad 15;

(b) ym mharagraff (7)—

(i) y canlynol wedi ei roi yn lle'r diffiniad o "awdurdod cynllunio perthnasol" —

"ystyr "awdurdod cynllunio perthnasol" ("*relevant planning authority*") yw awdurdod cynllunio sy'n darparu gwasanaethau mewn cysylltiad â chais arfaethedig neu gais i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith;"

(ii) y canlynol wedi ei roi yn lle'r diffiniad o "ymgynghorai statudol perthnasol"—

"ystyr "ymgynghorai statudol perthnasol" ("*relevant statutory consultee*") yw ymgynghorai statudol neu ymgynghorai statudol gwreiddiol o fewn yr ystyron a roddir yn rheoliad 2(1) o Reoliadau 2026;"".

Rebecca Evans
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, un o Weinidogion Cymru
4 Mawrth 2026

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 70

INFRASTRUCTURE PLANNING, WALES

The Infrastructure Consent (Fees) (Wales) (Amendment) Regulations 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

The Infrastructure (Wales) Act 2024 ("the 2024 Act") establishes a unified application and consenting process to enable making and consideration of applications for infrastructure consent. The process applies to the significant infrastructure projects that are specified in Part 1 of the 2024 Act. Broadly, they are energy, transport, waste and water projects.

Part 6 of the 2024 Act makes provision about infrastructure consent orders (orders granting infrastructure consent) including giving the Welsh Ministers power, by order, to change or revoke an infrastructure consent order (section 90 of the 2024 Act).

The 2024 Act enables the Welsh Ministers to make provision for or in connection with the charging of fees by specified public authorities for the performance of an infrastructure consent function and the provision of an infrastructure consent service (as defined in section 124 of the 2024 Act).

These Regulations amend the Infrastructure Consent (Fees) (Wales) Regulations 2025 to make provision for the charging of fees in connection with applications and proposed applications to make a change to, or revoke, an infrastructure consent order.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Welsh Government at Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and is published on the Welsh Government website at www.gov.wales.

2026 No. 70

INFRASTRUCTURE PLANNING, WALES

The Infrastructure Consent (Fees) (Wales) (Amendment) Regulations 2026

Made	*4 March 2026*
Coming into force	*16 March 2026*

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred upon them by sections 124(1), (4), (5) and (6), 140(1) and (2)(**1**) and 141(2)(a) of the Infrastructure (Wales) Act 2024(**2**).

In accordance with the Senedd approval procedure applied by section 141(3) of that Act a draft of this Welsh statutory instrument was laid before, and approved by resolution of, Senedd Cymru.

Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Infrastructure Consent (Fees) (Wales) (Amendment) Regulations 2026.

(2) These Regulations come into force on 16 March 2026.

Amendments to the Infrastructure Consent (Fees) (Wales) Regulations 2025

2.—(1) The Infrastructure Consent (Fees) (Wales) Regulations 2025(**3**) are amended as follows.

(2) In regulation 2(1) (interpretation)—

(a) in the definition of "applicant", after "means" insert ", except in Part 6,";

(b) in the definition of "application", after "means" insert ", except in Part 6,".

(3) After Part 5 (fees payable for other services) insert—

(**1**) For the meaning of "appropriate minister" see section 140(4) of the Infrastructure (Wales) Act 2024 (asc 3); see section 140(3) otherwise.
(**2**) 2024 asc 3.
(**3**) S.I. 2025/883 (W. 153).

“PART 6

Fees for proposed applications and applications to change or revoke an infrastructure consent order

Interpretation of Part

15. In this Part—

“the 2026 Regulations” (“*Rheoliadau 2026*”) means the Infrastructure Consent (Correcting Errors and Applications to Change or Revoke Infrastructure Consent Orders) (Procedure) (Wales) Regulations 2026;

“applicant” (“*ceisydd*”) means a person who proposes to make, or has made, an application to change or revoke an infrastructure consent order;

“application to change or revoke an infrastructure consent order” (“*cais i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith*”) means an application under section 90 of the 2024 Act;

“infrastructure consent order” (“*gorchymyn cydsyniad seilwaith*”) means an order made under the 2024 Act granting infrastructure consent.

Fee for giving notice of proposed application to change or revoke an infrastructure consent order

16.—(1) An applicant who gives notice of proposed application under regulation 6 of the 2026 Regulations must pay a fee to the Welsh Ministers with the notice.

(2) The fee payable under paragraph (1) is the amount published on a website maintained by or on behalf of the Welsh Ministers.

(3) The Welsh Ministers must—

(a) publish the fee payable on the website no less than one month before the fee comes into force, and

(b) ensure the fee payable does not exceed the costs reasonably incurred by them in dealing with the notice, taking one financial year with another.

Fees for applications to change or revoke an infrastructure consent order

17.—(1) An applicant who makes any of the following applications must pay a fee to the Welsh Ministers when the application is made—

(a) an application for a non-material change;

(b) an application for a material change;

(c) an application for revocation

(2) An applicant who receives a notice of acceptance which includes provision under regulation 7(5) of the 2026 Regulations that the applicant’s notice of proposed application is to be treated as an application must pay a fee to the Welsh Ministers on receipt of the notice of acceptance.

(3) The fees payable under this regulation are the amounts published on a website maintained by or on behalf of the Welsh Ministers.

(4) The Welsh Ministers must ensure that the following information is published on the website—

(a) details of the functions for which the fees are charged,

(b) the fees payable,

(c) the method used to calculate the fees, and

(d) the enactment under which the relevant functions are provided.

(5) The Welsh Ministers must—

(a) publish the fee for each kind of application specified in paragraph (1) and the fee payable under paragraph (2) on the website no less than one month before the fee comes into force;

(b) ensure the fee payable does not exceed the costs reasonably incurred by them in performing the relevant functions, taking one financial year with another.

(6) In this regulation—

"application for a material change" ("*cais am newid sylweddol*") has the meaning given in regulation 9(1)(b)(i) of the 2026 Regulations;

"application for a non-material change" ("*cais am newid ansylweddol*") has the meaning given in regulation 15(1)(b) of the 2026 Regulations;

"application for revocation" ("*cais am ddirymiad*") has the meaning given in regulation 9(1)(b)(ii) of the 2026 Regulations;

"notice of acceptance" ("*hysbysiad derbyn*") means a notice given under regulation 7(3) of the 2026 Regulations;

"notice of proposed application" ("*hysbysiad o gais arfaethedig*") means a notice given in accordance with regulation 6 of the 2026 Regulations.

Fee for examining an application to change or revoke an infrastructure consent order

18.—(1) Where a person or panel of persons is appointed under section 40(2) of the 2024 Act to examine an application to change or revoke an infrastructure consent order ("examining authority"), an applicant must pay a fee to the Welsh Ministers.

(2) The fee under paragraph (1) must be paid to the Welsh Ministers on receipt of notice under regulation 28(1)(a) of the 2026 Regulations of the first appointment of an examining authority.

(3) The fee payable under this regulation is the amount published on a website maintained by or on behalf of the Welsh Ministers.

(4) The Welsh Ministers must ensure that the following information is published on the website—

(a) details of the functions for which the fee is charged,

(b) the fee payable,

(c) the method used to calculate the fee, and

(d) the enactment under which the relevant functions are provided.

(5) The Welsh Ministers must—

(a) publish the fee on the website no less than one month before the fee comes into force;

(b) ensure the fee payable does not exceed the costs reasonably incurred by them in performing the relevant functions, taking one financial year with another.

(6) In this regulation "examining authority" has the meaning given in paragraph (1).

Refund of unspent fees in connection with applications to change or revoke an infrastructure consent order

19. The Welsh Ministers must refund to the applicant any part of the fee paid under regulation 17 or 18 which was not spent after the determination of the application to change or revoke an infrastructure consent order.

Fees payable to relevant statutory consultees and relevant planning authorities

20. Regulation 13 applies to applications to change or revoke an infrastructure consent order as it applies to applications for infrastructure consent under section 32 of the 2024 Act but as if—

(a) "applicant" had the meaning given in regulation 15;

(b) in paragraph (7)—

(i) for the definition of "relevant planning authority" there were substituted—

""relevant planning authority" ("*awdurdod cynllunio perthnasol*") means a planning authority that provides services in connection with a proposed application or an application to change or revoke an infrastructure consent order;"

(ii) for the definition of "relevant statutory consultee" there were substituted—

""relevant statutory consultee" ("*ymgynghorai statudol perthnasol*") means a statutory consultee or an original statutory consultee within the meanings given in regulation 2(1) of the 2026 Regulations;"".

Rebecca Evans
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning, one of the Welsh Ministers
4 March 2026

© Crown Copyright 2026

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer for Wales.

tso
a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,
and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-34-839841-0

9 780348 398410